



THE LEARNED SOCIETY OF WALES CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

COFNODION DEG FED CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS A GYNHALIWYD TRWY GYNHADLEDD FIDEO AR DDYDD MERCHER, 20 MAI 2020

Presennol:

Syr Emyr Jones Parry	<i>(Llywydd)</i>	Yr Athro Paul O'Leary
Yr Athro David Boucher	<i>(Is-Lywydd)</i>	Yr Athro John O'Reilly
Yr Athro Michael Charlton	<i>(Is-Lywydd)</i>	Yr Athro Ann Parry Owen
Yr Athro Keith Smith	<i>(Trysorydd)</i>	Yr Athro Carole Pateman
Yr Athro Alan Shore	<i>(Ysgrifennydd Cyffredinol)</i>	Ms Maxine Penlington
		Yr Athro Keith Peters
		Yr Athro Duc Pham
Yr Athro Gert Aarts	Yr Athro Simon Hands	Yr Athro Ceri Phillips
Mr Jonathan Adams	Yr Athro Alma Harris	Yr Athro Judith Phillips
Yr Athro Peter Atkinson	Yr Athro Trevor Herbert	Yr Athro Tim Phillips
Yr Athro Roger Awan-Scully	Yr Athro Glyn Hewinson	Yr Athro John Pickett
Y Fonesig Jocelyn Bell Burnell	Yr Athro Julian Hopkins	Yr Athro Ryszard Piotrowicz
Yr Athro Kirsti Bohata	Yr Athro Colin Hughes	Yr Athro Timothy Porter
Yr Athro Gillian Bristow	Yr Athro Ieuan Hughes	Yr Athro Julian Preece
Yr Athro David Brooksbank	Yr Athro Ifan Hughes	Yr Athro David Ian Rabey
Yr Athro Malcolm Brown	Dr E John Hughes	Yr Athro Geoff Richards
Yr Athro Tony Brown	Yr Athro Rob Humphreys	Yr Athro David Ritchie
Yr Athro Nickie Charles	Yr Athro Christine James	Yr Athro Gareth Roberts
Yr Athro Lisa Collins	Yr Athro E. Wyn James	Yr Athro Julian Sampson
Yr Athro Tom Crick	Yr Athro Matthew Jarvis	Yr Athro Karl Michael Schmidt
Yr Athro Michael Davies	Yr Athro Angela John	Yr Athro Bernard Schutz
Yr Athro Sioned Davies	Yr Athro Mari Jones	Yr Athro Len Scott
Yr Athro Alun Davies	Yr Athro John Jones	Yr Athro Qiang Shen
Yr Athro Ceri Davies	Yr Athro Trevor Jones	Syr Paul Silk
Dr Sally Davies	Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd David	Yr Athro Keshav Singhal
Yr Athro Richard Dinsdale	Lloyd Jones	Yr Athro Robin Stowell
Yr Athro Shareen Doak	Yr Athro Peter Knowles	Yr Athro Mark Thomas
Yr Athro Norman Doe	Yr Athro John Lazarus	Yr Athro Dame Jean Thomas
Yr Athro Christopher Evans	Yr Athro Geraint Lewis	Yr Athro Howard Thomas
Yr Athro Gareth Evans	Yr Athro Emyr Lewis	Yr Athro Terry Threadgold
Syr Malcolm Evans	Yr Athro Margaret MacMillan	Yr Athro Martyn Tranter
Yr Athro David Evans	Yr Athro Malcolm Mason	Yr Athro Elaine Treharne
Yr Athro Peter Excell	Yr Athro Donna Mead	Yr Athro Carol Tucker
Yr Athro Roger Falconer	Yr Athro Gennady Mishuris	Yr Athro John V Tucker
Dr Dylan Foster Evans	Yr Athro Faron Moller	Yr Athro Meena Upadhyaya
Yr Athro Caroline Franklin	Yr Athro W. John Morgan	Yr Athro Ian Weeks
Yr Athro Helen Fulton	Yr Athro Hilary Morgan	Yr Athro Andrew Weightman
Yr Athro Haley Gomez	Y Gwir Barchedig Barry Morgan	Yr Athro Gavin Wilkinson
Yr Athro Claire Gorrara	Yr Athro Iwan Morus	Yr Athro Catrin Williams
Yr Athro Leslie Griffiths	Yr Athro Helen Nicholson	Yr Athro John Tudno Williams
Yr Athro Alan Guwy	Dr Sue Niebrzydowski	Yr Athro Thomas Wirth
	Yr Athro Perumal Nithiarasu	

YN BRESENNOL DRWY PROCSI

Professor Russell Davies
Professor Nidal Hilal
Professor Helen Ougham

Professor Brian Randell
Dr Lynn Williams
Sir Robin Williams

Yn gweinyddu:

Mr Martin Pollard	<i>(Prif Weithredwr)</i>
Dr Sarah Morse	<i>(Uwch Swyddog Gweithredol)</i>
Mrs Amanda Kirk	<i>(Clerc y Cyngor)</i>
Mr Joe Boyle	<i>(Swyddog Cyfathrebu)</i>
Mrs Fiona Gaskell	<i>(Cynorthwyydd y Gymrodoriaeth)</i>
Ms Janice Gillian	<i>(Swyddog Cyllid)</i>
Ms Catrin Beard	<i>(Cyfieithydd)</i>

Dechreuodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol am 3.30 p.m.

1. Croeso a Chyflwyniad gan Lywydd y Gymdeithas

Gwnaeth y Llywydd, Syr Emyr Jones Parry'r canlynol:

- 1.1 croesawu'r Cymrodyr oedd yn bresennol, yn benodol Cymrodyr oedd newydd eu hethol, i Ddegfed Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb;
- 1.2 hysbysu'r Cymrodyr bod croeso iddynt annerch y cyfarfod yn Gymraeg neu Saesneg;
- 1.3 mynegi ei ddiolch i'r cyfieithydd, Catrin Beard.

Cyhoeddodd y Llywydd enillwyr medalau 2020 y Gymdeithas a llongyfarchwyd:

- Yr Athro Sally Power, enillydd Medal Hugh Owen (ymchwil addysgol)
- Yr Athro Hayley Gomez, enillydd Medal Hoggan (menywod yn STEM)
- Yr Athro Nidal Hilal, enillydd Medal Menelaus (peirianeg a thechnoleg)
- Dr Gwennan Higham, enillydd Medal Dillwyn: Y Dyniaethau a'r Celfyddydau Creadigol
- Dr Jennifer Edwards, enillydd Medal Dillwyn: STEM
- Dr Rebecca Diamond, enillydd Medal Dillwyn: Y Gwyddorau Cymdeithasol, Economeg a Busnes

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb a fyddai'n cael eu rhestru fel atodiad i gofnodion y cyfarfod.

3. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019

CAFODD, NODODD A PHENDERFYNNODD yr Aelodau **GYMERADWYO** Cofnodion degfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019, a lofnodwyd gan y Llywydd ar y cyfle cyntaf.

4. Mater Llywodraethu

CAFODD a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2020/01, Materion Llywodraethu.

Nododd y Llywydd fod yr offerynnau llywodraethu ar ffurf Siarter Brenhinol ac is-ddeddfau a Rheoliadau'r Gymdeithas i'w canfod ar wefan y Gymdeithas:

www.learnedgymdeithas.wales/about-us/governance)

Nododd y Llywydd fod yr Athro Hywel Thomas wedi'i ethol gan y Cymrodyr i'w olynu fel Llywydd y Gymdeithas. Mae'r broses gywir wedi'i dilyn.

Byddai'r Athro Alan Shore yn parhau fel Ysgrifennydd Cyffredinol am ail dymor. Diolchodd y Llywydd iddo am ei wasanaeth gwerthfawr i'r Gymdeithas.

Diolchodd y Llywydd i'r Athro David Boucher am ei wasanaeth a'i gyfraniad rhagorol i'r Gymdeithas wrth i'w dymor fel Is-lywydd ar gyfer y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ddirwyn i ben. Llongyfarchodd yr Athro Helen Fulton am ei phenodiad fel Is-lywydd a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.

Diolchodd a chroesawodd y Llywydd y chwe aelod newydd o'r Cyngor sydd wedi'u hethol gan Gymrodyr i wasanaethu ar y Cyngor tan ddiwedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023. Dyma'r aelodau newydd:

- Yr Athro Roger Awan-Scully
- Yr Athro Claire Gorrara
- Yr Athro Alma Harris
- Yr Athro Qiang Shen
- Yr Athro John V Tucker
- Yr Athro Meena Upadhyaya

Diolchodd y Llywydd i aelodau ymadawol y Cyngor am eu cyfraniadau i'r Cyngor ac i'r Gymdeithas gyfan. Dyma'r aelodau ymadawol:

- Yr Athro Sioned Davies
- Yr Athro David Evans
- Yr Athro Densil Morgan
- Yr Athro John Morgan
- Yr Athro Tim Phillips

Nododd y Llywydd fod yr Athro Claire Gorrara a'r Athro Qiang Shen wedi'u hethol gan gydweithwyr y Cyngor i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Penodiadau Llywodraethu o ddiwedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020 i ddiwedd Cyfarfod 2023.

Diolchodd y Llywydd i'r holl Gymrodyr am roi eu hunain ymlaen i wasanaethu ar Gyngor a Phwyllgorau'r Gymdeithas.

5. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19

CAFODD a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2020/02 a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2018/19 (sef nawfed cyfnod cyfrifo'r Gymdeithas). Cyflwynwyd y rhain gan y Trysorydd. Roedd rhybudd wedi'i roi i'r Aelodau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Gymdeithas.

Diolchodd y Trysorydd i'r Llywydd am ei gyfraniadau yn ystod y ddau dymor diwethaf. Diolchodd hefyd i'r staff, yn enwedig Janice Gillian am ei gwaith fel Swyddog Cyllid ar gyfer y Gymdeithas.

NODWYD YMHELLACH:

Bod incwm y Gymdeithas yn cynnwys yn bennaf grantiau gan brifysgolion yng Nghymru, ffioedd derbyn a thanysgrifiadau gan ein Cymrodyr.

Nododd y Trysorydd y byddai'r ffynhonnell ariannu olaf yn cynyddu wrth i ragor o Gymrodyr gael eu hethol. Amlygodd bwysigrwydd Cymorth Rhodd, a greodd 25% ychwanegol ar y ffioedd aelodaeth ac ar roddion. Anogodd pob Cymrawd oedd yn medru i lofnodi ar gyfer Cymorth Rhodd.

Diolchodd y Trysorydd yn benodol i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a gefnogodd y Gymdeithas nid yn unig trwy gyfraniad grant ond hefyd trwy ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys lle swyddfa, cymorth gweinyddol a gwasanaethau TG.

Nododd y Trysorydd wariant y Gymdeithas. Dywedodd fod y Gymdeithas mewn sefyllfa dda, gyda bron i £400,000 o gronfeydd i gyd.

Diolchodd y Llywydd i'r Trysorydd ac aelodau o'r Pwyllgor Cyllid am eu stiwardiaeth ofalus o adnoddau'r Gymdeithas.

Gwahoddodd y Llywydd sylwadau gan y Cymrodyr ar adroddiad y Trysorydd. Nid oedd sylwadau.

PENDERFYNODD yr Aelodau'n **FFURFIOL I DDERBYN** yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2018/19.

Penodi Archwilwyr Annibynnol

NODODD yr Aelodau bod y cyfrifon wedi'u harchwilio'n annibynnol gan Baldwins; ni chodwyd unrhyw bryderon ganddynt.

Estynnodd y Llywydd wahoddiad i'r Cymrodyr roi sylwadau ar adroddiad y Trysorydd. Ni chafwyd rhai.

PENDERFYNODD yr Aelodau **BENODI BALDWINS YN FFURFIOL FEL YR ARHOLWR ANNIBYNNOL** ar gyfer 2019/20.

6. Materion y Gymrodoriaeth

CAFODD a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2020/03, Materion Cymrodoriaeth.

Gwahoddodd y Llywydd yr Is-lywydd ar gyfer y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i gyflwyno'r papur. Nododd yr Is-lywydd ei bod hi wedi bod yn bleser gweithio gyda chyd-swyddogion ac y byddai'n aros ar y Cyngor am un flwyddyn arall.

Croesawodd yr Is-lywydd Joe Boyle, y Swyddog Cyfathrebu, ac fe'i diolchodd am ei holl gefnogaeth.

Nododd yr Is-lywydd farwolaeth drist deg Cymrawd dros y flwyddyn ddiwethaf ac arsylwyd munud o dawelwch er cof amdanynt.

Nododd yr Is-lywydd fod y cylch ethol wedi'i drefnu'n dda a diolchodd i'r cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau Craffu am eu holl ymdrechion. Roedd Fiona Gaskell, Cynorthwydd y Gymrodoriaeth, wedi gwneud gwaith gwych i sicrhau bod y broses yn cael ei rheoli'n dda ac fe'i diolchwyd am ei hymdrechion.

Diolchodd yr Is-lywydd hefyd i'r Athro Terry Threadgold am ei gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan amlygu ei chyfraniad gwerthfawr i wella'r ffurflenni enwebu.

Llongyfarchodd yr Is-lywydd bob Cymrawd a gafodd wobrau niferus ar hyd y flwyddyn. Nodwyd, ers cynhyrchu'r papurau, fod yr Athro Valerie O'Donnell (etholwyd 2015) a'r Athro Menna Clatworthy (etholwyd 2020) wedi'u hethol yn Gymrodyr yr Academi Gwyddorau Meddygol.

Gwahoddodd y Llywydd sylwadau gan Gymrodyr. Ni dderbyniwyd rhai.

7. Ethol Cymrodyr newydd

Galwodd y Llywydd ar yr Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Athro Alan Shore, i gyflwyno rhan hon y cyfarfod.

CAFODD a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2020/04 oedd yn amlinellu'r broses o ran cyflwyno Cymrodyr newydd yn ffurfiol.

Croesawodd y Llywydd yn ffurfiol bob Cymrawd newydd i'r Gymdeithas, gan eu cyfarch â'r geiriau canlynol:

'Yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru a thrwy ei hawdurdod, fe'ch derbyniaf chi yn Gymrodyr y Gymdeithas'.

Cyflwynodd yr Athro Shore yr Athro Margaret MacMillan, Cymrawd Anrhydeddus, a dywedodd:

“Mae'r Athro Margaret MacMillan yn amheuthun ond nid yw'n unigryw yn y ffaith ei bod hi wedi cyflawni gwasanaeth i'r Gymdeithas cyn iddi gael ei hethol yn Gymrawd Anrhydeddus.

“Ym mis Rhagfyr 2016, roeddwn yn aelod o gynulleidfa lawn yn Narlithfa Eric Sunderland ym Mhrifysgol Bangor er mwyn gwrandao ar yr Athro MacMillan yn rhoi darlith ar ei hen dad-cu: David Lloyd George yr Heddychwyr.

“Hoffwn sôn am ddwy nodwedd o'r digwyddiad hwnnw.

“I ddechrau, rhoddodd ein cydweithiwr diweddar ac a fethir, Keith Robbins, gyflwyniad afieithus cofiadwy i’r ddarlith. Cafwyd hefyd sesiwn holi ac ateb fywiog iawn sy’n adlewyrchu’r diddordeb mawr a grëwyd gan y ddarlith. Roedd rhai o’r cwestiynau’n swnio braidd yn od, hyd yn oed i’r clustiau anhyddysg innau. Serch hynny, atebodd yr Athro MacMillan bawb a ddaeth yn ddeheuig. Ar sail yr ymatebion hynny, mae’n bosibl bod rhai o’r cwestiynwyr hynny wedi mynd adref yn ystyried iddynt ofyn cwestiwn synhwyrol.

“Mae’r Athro MacMillan wedi mynd ar drywydd ei gyrfa academiaidd yn ei gwlad frodorol yng Nghanada ac yn y DU.

“Ceir cymesuredd rhyfeddol rhwng ei chyflawniadau ar ddwy ochr yr Atlantig. Mae ei phenodiadau a’i chyflawniadau felly’n cynnwys:

Athro Hanes ym Mhrifysgol Toronto a Hanes Modern yn Rhydychen

Prifathro Coleg y Drindod Toronto; Warden Coleg Sant Antony Rhydychen

Urdd Cydymaith Canada; Cydymaith Anrhydedd y DU

Llywodraethwr Cyffredinol Gwobr Lenyddol Canada; gwobr Samuel Johnson am lenyddiaeth ffeithiol

“Ond nid yw ei holl gyflawniadau wedi’u cyfyngu i’r parth academiaidd, gan ei bod hi wedi ymroi amser sylweddol i gyfathrebu â’r cyhoedd. Er enghraifft, yn 2015, cyflwynodd Darlithoedd Massey ar gyfer Corfforaeth Ddarlledu Canada; ac yn 2018, Darlithoedd Reith ar gyfer y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.

“Mae’r rhain ymhell o fod yn gyrchoedd prin i eiddo cyhoeddus. Mae hi’n cyfrannu’n aml at y newyddion a rhaglenni materion cyfoes fel y World at One ar Radio 4. Fan hyn, mae hi’n cysylltu’n glir faterion cyfoes â’u cynseiliau hanesyddol.

“Oherwydd y cyfuniad hwn o sgiliau, mae’n hynod amhriodol i alw’r Athro Macmillan yn Ddeallusyn Cyhoeddus. Ac mae’n bleser gennym ei chroesawu i’r Gymdeithas.”

Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr Athro MacMillan i annerch y cyfarfod. Atebodd yr Athro MacMillan:

“Mae’n anrhydedd ac yn bleser mawr cael fy ethol yn Gymrawd Anrhydeddus Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Byddwn i wedi hoffi diolch i chi mewn person, ond mae pandemig Covid-19 wedi newid hynny fel y mae wedi gwneud gyda phopeth arall. Ond yr hyn y mae wedi gwneud, a hynny’n gryfach nag erioed, yw tynnu sylw at ba mor bwysig yw dysgu ac ymchwil a’n diwylliant i gymdeithas. Trwy ddwyn ynghyd arbenigwyr o feysydd ar draws y celfyddydau a’r gwyddorau, mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru’n helpu i greu Cymru gref. Fel rhywun sy’n falch o fod yn hanner Cymraes, ar ochr fy mam, rwy’n ddiolchgar iawn i chi am adael imi fod yn rhan o sefydliad mor werthfawr. Diolch yn fawr yn wir.”

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymrawd Anrhydeddus y Fonesig Jocelyn Bell Burnell fel a ganlyn:

“Er syndod, mae ein hail Gymrawd Anrhydeddus, y Fonesig Jocelyn Bell Burnell hefyd wedi gwasanaethu’r Gymdeithas cyn cael ei hethol. Fel Llywydd Cymdeithas Frenhinol Caeredin, cynigiodd y Fonesig Jocelyn gyngor a chymorth gwerthfawr iawn i Gymdeithas Ddysgedig newydd Cymru. Rydym yn mawr werthfawrogi’r gefnogaeth honno.

“Yn ystod cyfnod y Fonesig Jocelyn fel Llywydd yr Athrofa Ffiseg, gwasanaethais ar bwylgor cyswllt Athrofa Ffiseg / Undeb Ryngwladol Ffiseg Bur a Chymhwysol a gadeiriwyd gan y Fonesig Jocelyn. Rwy’n cofio un aelod o’r pwyllgor a hoffai siarad yn hirfaith ond ni allwn ddeall pwynt y cyfraniadau hynny bob amser. Rhoddodd y Fonesig Jocelyn ganiatâd amyneddgar i’r aelod hwnnw gael dweud ei ddweud, diolchwyd iddo am ei gyfraniad ac yna llywiwyd y pwyllgor trwy ei agenda ar amser.

“Ysgrifennwyd y rhan fwyaf o weddill y sylwadau a gynigaf gan Gymrawd y Gymdeithas yn Llanystumdwy - lle o ryw arwyddocâd i Margaret MacMillan. Cyfeiriai at Jan Morris, sydd bellach yn ei 10fed degawd ond sy’n parhau i ysgrifennu - yn y Gymraeg yn ogystal â’r Saesneg gyda llaw.

“Mae ei llyfr diweddaraf *Thinking Again*, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, ar ffurf dyddiadur ond mae’r cofnodion wedi’u rhifo yn hytrach na’u dyddio. Byddai hyn yn gur pen i hanesydd, ond rwy’n hyderus y bydd y Fonesig Jocelyn yn gallu dyddio’r cofnod canlynol yn eithaf cywir.

“Dyma felly aralleiriad o Ddiwrnod 64 o *Thinking Again* gan Jan Morris:

“Aha! Am unwaith mae yna stori hollol hapus yn newyddion y dydd. Mae’n ymwneud â’r astroffisegydd Jocelyn Bell Burnell a ddarganfyddodd fodolaeth pylsarau pan oedd yn wyddonydd fyfyrwr ôl-raddedig yng Nghaergrawnt ym 1967. Cadarnhaodd ei goruchwyliwr yn Labordy Cavendish y gwaith a gwobrwywyd y Wobr Nobel am y cyflawniad hwn iddo ef yn unig.

“Rydw i ar ddeall i wyddonwyr enwog brotestio oherwydd annhegwch hyn ond derbyniodd y Ms Burnell ifanc y sefyllfa heb gwyno ac aeth ymlaen gyda’i gwaith.

“A’i harweiniodd, yr wythnos hon i America ac at wobwr Darganfyddiad Arbennig a wobrwyr am gyflawniad gwyddonol eithriadol ac mae’n werth – arhoswch amdano - £2.3 miliwn.

“A sut gwnaeth Burnell, sydd bellach yn Fonesig o’r Ymerodraeth Brydeinig eithriadol o amlwg ymateb y tro hwn? Wel, trwy wrthod yn raslon y ffortiwn iddi hi ei hun a throsglwyddo pob un geiniog i elusen wyddonol.

“Gwych! Llongyfarchiadau wrth dwpsyn gwyddonol llwyr i’r Fonesig Jocelyn, a diolch yn fawr am fod yn esiampl i ni gyd.”

“A hoffwn ddiolch i Jan Morris am hynny.

“I gloi, cyfeiriai yn ôl at rôl y Fonesig Jocelyn gyda Chymdeithas Frenhinol Caeredin; mae hi hefyd yn aelod anrhydeddus o Academi Frenhinol Iwerddon. Yn ôl fy nghyfrifiadau i, hi heddiw fydd y person cyntaf i gwblhau triawd yr Academiâu Celtaidd.

“Croeso i Gymdeithas Ddysgedig Cymru.”

Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y Fonesig Jocelyn i annerch y cyfarfod. Ymatebodd:

“Diolch yn fawr am yr anrhydedd hwn!

“Rydw i o Ogledd Iwerddon yn wreiddiol ac wedi treulio llawer o’r hamser yn yr Alban, felly er nad oes gennyf gysylltiadau uniongyrchol â Chymru, rwy’n teimlo bod rhyw fath o enaid hoff gytûn rhyngom.

“Yn fuan ar ôl i’r Gymdeithas ddechrau, deuthum yn Llywydd ar Gymdeithas Frenhinol Caeredin, a chefais gyfle, yn enwedig yn ystod trafodaethau BREXIT, i weithio gydag Emyr Jones Parry (Llywydd LSW ar y pryd) a Peter Halligan (Prif Swyddog Gweithredol). Roedd yn berthynas hynod gynhyrchiol, ac rwy’n hapus iawn nawr o gael y berthynas barhaus hon gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru.”

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bob un o’r Cymrodwr newydd eu hethol, a chasglodd y Llywydd y sesiwn gynefino trwy ddatgan:

“Fel Cymrawd etholedig Cymdeithas Ddysgedig Cymru, maen nhw’n gwneud popeth o fewn eu gallu i gynnal dibenion ac enw da’r Gymdeithas.”

8. Anerchiad Blynyddol y Llywydd, Syr Emyr Jones Parry

Cyflwynodd Syr Emyr Jones Parry ei anerchiad blynyddol i Gymrodwr. Fe fydd y testun ar gael ar dudalen Cyhoeddiadau gwefan y Gymdeithas.

9. Penodi Llywydd a Chadeirydd Cyngor newydd

Llongyfarchodd y Llywydd yr Athro Hywel Thomas ar gael ei ethol yn Llywydd y Gymdeithas.

Diolchodd yr Athro Thomas i Syr Emyr a nododd ei fod yn anrhydedd gael ei ethol.

Nododd yr Athro Thomas fod y Gymdeithas yn byw mewn amserau anodd oherwydd Covid-19, ond wrth i ni edrych i’r dyfodol, roedd mewn lle da i gynnig cyngor i’r llywodraeth. Diolchodd i Syr Emyr, oedd wedi sicrhau bod y Gymdeithas wedi datblygu rôl fel cyfaill beirniadol i’r llywodraeth.

Amlygodd yr Athro Thomas fod Syr Emyr bob amser wedi siarad yn uchel, yn glir ac yn huawdl yn ei ymateb i Brexit ac effaith hynny ar addysg uwch yn ystod ei Lywyddiaeth.

Yn ogystal, gwnaeth Syr Emyr gyfraniadau tyngedfennol i Adolygiad Diamond, yn enwedig i gyngor y Gymdeithas ar gyllid i fyfyrwyr ac yn ei ymdrechion i sicrhau cyllid y llywodraeth ar gyfer y Gymdeithas.

Nododd yr Athro Thomas hefyd rôl bwysig Syr Emyr wrth sicrhau’r Siarter Frenhinol ar gyfer y Gymdeithas. Roedd wedi adeiladu perthnasoedd cryf gydag academiâu eraill ac roedd yn ddylanwadol wrth sicrhau aelodaeth y Gymdeithas o ALLEA.

Yn olaf, nododd yr Athro Thomas y gwelliannau yr oedd Syr Emyr wedi’u rhoi ar waith i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bob aelod o’r Gymdeithas.

Nododd yr Athro Thomas ei bod hi'n drist na allem fod gyda'n gilydd er mwyn codi llwncdestun i Syr Emyr a'i ddiolch am bopeth yr oedd wedi'i wneud.

Diolchodd Syr Emyr i'r Athro Thomas am ei eiriau caredig, ac am y cyfan yr oedd eisoes wedi'i wneud i'r Gymdeithas, a dymunodd yn dda iddo.

10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Nododd y Llywydd y byddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf ar ddydd Mercher 19 Mai 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 p.m.

Derbyniwyd ymddiheuriadau i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol gan:

Dr Robin Gwyndaf, Syr Leszek Borysiewicz, Yr Athro Ann Heilmann, Dr Helen Ougham, Yr Athro Stuart Palmer, Yr Athro Kenneth Edwards, Yr Athro Cara Aitchison, Syr Robin Williams, Ms Ceridwen Roberts, Dr Rhiannon Ifans, Syr Mansel Aylward, Yr Athro Biagio Lucini, Yr Athro Peter Halligan, Y Farwnes Ilora Finlay, Yr Athro Justin Lewis, Yr Athro Eleri Pryse, Yr Athro Nathan Abrams